Celf Cŵl

# Ffenestr haul **Dreidel**


Byddwn yn creu **dreidel** lliwgar a deniadol i'w osod yn y ffenestr. Mae'r golau'r haul a lliwiau yn rhan bwysig iawn o ddathliadau **Hanukkah.**

I'w wneud y ffenestr haul mi fydd angen:

- pensil
- pren mesur
- cerdyn lliw A5
- siswrn
- glud
- papur tusw lliwgar
- plastig clir


**Cam 1**

Ar dy gerdyn lliw maint A5, gwna siâp dreidel gyda phensil a phren mesur. Cofia ei wneud yn ddigon mawr.




**Cam 2**

Yn ofalus, torra'r siâp dreidel efo siswrn. Hwn fydd ffrâm y ffenestr haul. Syniad da ydi plygu'r papur i dorri'r twll yn y canol allan.




**Cam 3**

Torra ddarn o blastig clir sydd ychydig yn fwy na'r twll yng nghanol y sâp dreidel. Hwn fydd 'gwydr' y ffenestr. Gluda fo i'r ffrâm.



**Cam 4**

Efo'r siswrn, torra ddarnau llai o bapur tusw lliwgar. Defnyddia'r glud i'w ludo ar y plastig clir. Drwy'r rhain fydd yr haul yn tywynnu.



**Cam 5**

Wedi i'r glud sychu, rho dy **Ffenestr Haul Dreidel**, yn ffenestr y dosbarth fel bod yr haul yn goleuo'r darnau lliwgar i gyd.

